**P-05-1076 Caniatáu i'r holl Gelfyddydau Perfformio ailagor – cerddoriaeth fyw, dawns, theatrau a neuaddau cyngerdd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Catherine Tanner, ar ôl casglu cyfanswm o 338 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Pam rydym ni'n gallu eistedd ar awyren am 8 awr, yn gwisgo mwgwd, ond heb gadw unrhyw bellter cymdeithasol... ond allwn ni ddim gwylio cyngerdd o dan yr un amodau?
Pam mae pobl mewn tafarndai / caffis yn gallu eistedd 2m ar wahân, yn siarad heb wisgo masgiau ... ond allwn ni ddim eistedd mewn distawrwydd 2m ar wahân yn gwylio cerddoriaeth fyw?
Pam rydym yn gallu gwylio ffilm yn y sinema, neu wrando ar offeiriad mewn eglwys, ond allwn ni ddim gwylio un cerddor yn perfformio ar ei ben ei hun dan do?
Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r gorau i drin y celfyddydau a cherddoriaeth fyw yn annheg er bod popeth arall wedi ailagor.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Cynhaliwyd Gŵyl Salzburg eleni – dim achosion.
https://bachtrack.com/feature-austria-salzburg-festival-covid-19-september-2020

Agorodd Ffilharmonig Berlin eleni.
https://www.berliner-philharmoniker.de/en/

Ailagorodd neuaddau cyngerdd yn Lloegr eleni ac ailddechreuodd perfformiadau cerddoriaeth fyw.

O dan yr Offeryn Statudol sydd mewn grym ar hyn o bryd, bydd neuaddau cyngerdd ar gau tan Chwefror 2021 felly, am y tro cyntaf yn ei hanes, bydd Cymru wedi gwahardd cerddoriaeth fyw am flwyddyn. Cafodd y celfyddydau

yng Nghymru eu llethu dros yr haf oherwydd y penderfyniad i wahardd cyngherddau awyr agored hyd yn oed pan oedd bron pob gwlad arall yn Ewrop yn caniatáu hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthod gadael i'r celfyddydau agor o dan yr un telerau ag y mae'n caniatáu i ysgolion, siopau a busnesau lletygarwch agor. Mae hyn yn rhagrithiol ac yn hynod annheg. Mae mesurau cadw peller cymdeithasol naill ai'n gweithio, neu dydyn nhw ddim.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pen-y-bont at Ogwr
- Gorllewin De Cymru